Mae yna lawer o fythau ynghylch clirio eira. Peidiwch â chael eich rhwystro rhag clirio llwybrau oherwydd eich bod ofn atebolrwydd. Mae gan bobl sy'n cerdded ar eira a rhew hefyd gyfrifoldeb i fod yn ofalus.

## 1. Rôl Rheolwr y Safle

1.1 Rhaid i Reolwr y Safle sicrhau bod y gweithdrefnau a amlinellir yn y canllawiau hyn yn cael eu cynllunio, eu hasesu o ran risgiau a bod pobl yn glynu atynt, rhaid hefyd iddo/iddi ddynodi unigolion cymwys i gyflawni'r rolau hyn cyn y tywydd gwael. Os yw'r amodau'n anniogel i staff ac eraill, yna rhaid i reolwr y safle wneud y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfleusterau neu eu cau.

## 2. Meysydd Cyfrifoldeb i Glirio Eira/Graeanu ar safleoedd y Cyngor.

2.1 Mewn amodau eira/iâ mae'n gyfrifoldeb ar reolwyr safleoedd i sicrhau mynediad diogel lle tybir y bydd pobl yn dod i'r safle am fod gwasanaeth yn cael ei gynnig, felly rhaid ystyried y canlynol:

- Bod gennych ddigon o adnoddau i glirio a graeanu pob llwybr troed / ffordd drwy gydol cyfnod parhaus o eira / tywydd rhewllyd;
- Rhaid i chi allu cadw'r llwybrau hyn yn ddiogel trwy glirio a graeanu'n drylwyr ac yn ddigonol trwy gydol y cyfnod tywydd garw;
- Os na ellir clirio pob ardal yn dilyn asesiad ar sail yr uchod, mae'n ofynnol i'r person cyfrifol asesu llwybrau sylfaenol y gellir eu clirio a'u graeanu. Dylai hyn gynnwys un brif fynedfa i'r adeilad o'r perimedr allanol ac un prif fynedfa o unrhyw faes parcio;
- Lle mae llwybrau sylfaenol yn unig yn cael eu nodi a'u trin, ni ddylid defnyddio pob llwybr arall a rhaid gosod arwyddion penodol a / neu osod conau wedi'u marcio â thâp 'perygl';
- Rhaid i unrhyw fannau du y gwyddys amdanynt gael eu clirio a'u trin yn lleol - bydd hyn yn cynnwys meysydd parcio neu le, lle gall ceir / cerddwyr fod mewn cysylltiad agos;
- Rhaid i bob allanfa dân a llwybrau dianc fod yn glir o eira / rhew er mwyn gallu dianc yn ddiogel mewn argyfwng;
- Rhaid bod llwybr diogel i gerbydau brys fynd i'r safle os oes angen;
- Dylai Rheolwyr Safle drefnu i berson cymwys arolygu offer chwarae awyr agored yn rheolaidd;
- Y meysydd eraill dylid eu hasesu yw mannau chwarae awyr agored, glaswellt ffug, y ganolfan sgïo, caeau pêl-droed, parc sglefrio ac ati. Rhaid i'r Rheolwr Safle gwblhau arolwg i benderfynu a yw'r ardaloedd hyn yn ddiogel i'w defnyddio, os na, dylid eu cau a dylid diogelu'r ardal os yw'n bosibl drwy ddefnyddio arwyddion priodol.

## 3. Clirio Eira

3.1 Ni fydd halen ar ei ben ei hun yn atal eira rhag ffurfio. Y ffordd fwyaf effeithiol o gael gwared â'r eira yw trwy gyfrwng mecanyddol neu waith caled corfforol gan ddefnyddio rhofiau eira.

3.2 Dechreuwch mor fuan â phosibl am mai eira heb darfu arno yw'r hawsaf i'w glirio cyn i'r eira gael ei gywasgu gan gerddwyr. Mae clirio'r eira yn caniatáu i'r haul gynhesu tymheredd wyneb y palmant sy'n helpu'r broses o doddi unrhyw eira sy'n weddill.

3.3 Unwaith y bydd yr eira wedi'i glirio o fan penodol, dylid taenu haen denau iawn o halen i atal unrhyw ddŵr rhag rhewi ar y palmant sy'n creu risg o iâ du neu wrth iddo droi i iâ, gall ei wneud yn anoddach fyth i waredu arno.

3.4 Yn ddelfrydol, wrth glirio llwybr, dylech anelu i glirio digon o le i ganiatáu i ddau gerddwr basio a dilyn y llwybr mwyaf tebygol i ddefnyddwyr. Dylai'r gofod clir fod yn lletach mewn safleoedd bysiau ac ardaloedd lle mae cerddwyr yn ymgynnull. Dylid gwaredu ar yr eira a gliriwyd drwy ei rhoi ger yr ymylon neu fannau lle nad oes cerbydau/cerddwyr hy tuag at ochr y palmant. Ni ddylid ei adael ar y ffordd gerbydau neu ger draeniau gan y bydd hyn yn atal dŵr toddi rhag draenio i ffwrdd, a allai beri risg iddo ail-rewi a throi i iâ du. Dylid cymryd gofal ychwanegol i osgoi rhwystro mynediad i eiddo, allanfeydd tân, rhodfeydd a llwybrau cerdded.

## 4. Sut i daclo iâ sydd wedi ei gywasgu ar y llawr

4.1 Os yw'r eira wedi ei gywasgu a bondio i arwyneb y palmant, efallai mai dim ond trwy ddull mecanyddol y gellir gwaredu arno. Fodd bynnag, bydd hyn yn waith caled ac ni fydd yn gynhyrchiol iawn. Eich opsiwn pennaf yw lledaenu cynnyrch dros yr iâ i'w sodro er mwyn i esgidiau lynu ato pan fydd pobl yn cerdded drosto.

4.2 Wrth daclo rhew sydd wedi cywasgu, mae'n well prynu cynnyrch rhatach a mwy effeithiol fel tywod garw (nid tywod adeiladwyr) gan y bydd hyn yn cael mwy o effaith na halen. Lledaenwch yn yn unffurf dros yr iâ i greu gafael.

4.3 Wrth i bobl gerdded dros y rhew a'r tywod, bydd y pwysau'n ymgorffori'r tywod felly'n cynnig ateb hirdymor. Os ydych chi'n defnyddio tywod, yr unig anfantais yw y bydd angen ysgubo'r palmant unwaith y bydd yr iâ yn toddi. Unwaith y caiff ei ysgubo, gall y tywod hwn gael ei gadw a'i ddefnyddio eto.

## 5. Pibonwy (icicles)

5.1 Mae pibonwy yn beryglus a gallant hyd yn oed fod yn angheuol. Os oes pibonwy'n hongian dros lwybrau, dylid ystyried cau'r ardal i atal anaf neu ddifrod.

5.2 Gall pwysau pibonwy achosi cwteri, adlenni, a nodweddion addurnol i gwympo a disgyn o adeilad.

5.3` Argymhellir gwaredu ar bibonwy mawr drwy gysylltu â desg gymorth y gwasanaethau eiddo ar 01495 766706.

## 6. Sut y mae halen yn gweithio

6.1 Y deunydd dadrewi mwyaf poblogaidd yw halen neu sodiwm clorid. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn defnyddio halen craig wedi'i gloddio i drin priffyrdd, a dyma'r cynnyrch a ddefnyddir i lenwi biniau graean, ac a gyflenwir i safleoedd mewn bagiau 25kg.

6.2 Mae halen yn gweithio trwy ostwng pwynt rhewi'r dŵr rhewi y mae'n toddi ynddo yn is na'r 0°C arferol. Fel rheol bydd yr halen yn atal unrhyw leithder rhag rhewi ac achosi iâ o leiaf nes bod tymheredd yn cyrraedd -7 ° C. Mae halen yn dod yn llai effeithiol islaw'r tymheredd hwn ond bydd yn parhau i atal rhew rhag ffurfio hyd at -15°C os gellir ei ledaenu ymlaen llaw a bod amser i doddi.

6.3 Gellir defnyddio halen cyn i eira ddisgyn ac ar ôl iddi fwrw eira a rhewi.

6.4 Ni fydd halen yn unig yn atal eira rhag setlo na’n toddi unrhyw beth mwy na haen denau iawn o eira a rhaid symud yr eira oddi yno cyn taenu halen;

6.5 Bydd halen yn atal rhew rhag ffurfio ac yn toddi iâ sydd eisoes wedi ffurfio, ond bydd angen mwy o amser o lawer i waredu ar iâ trwchus.

## 7. Sut i ddefnyddio halen

7.1 Mae clirio'r eira yn caniatáu i'r haul gynhesu tymheredd wyneb y palmant sy'n helpu'r broses o doddi unrhyw eira sy'n weddill.
Os oes halen ar gael gellir ei daenu ar y palmant sydd wedi ei glirio. Bydd hyn yn helpu i atal y dŵr rhag ail rhewi a throi’n iâ du.

7.2 Mae swm yr halen sydd ei angen i drin ardal yn llai o lawer nag y credwch. Fel canllaw dylai 20g/m² (llond dwrn) fod yn ddigon i glirio a diogelu hyd 1m (3 troedfedd) o arwyneb clir. Os caiff yr wyneb ei glirio a'i drin yn unffurf, mae'n bosib defnyddio bag 20kg i drin 400m o droedffordd.

7.3 Un ffordd o ledaenu halen, os yw'n cael ei wneud â llaw, yw rhoi’r halen ar drywel bach a'i ysgwyd yn ysgafn wrth i chi gerdded. Bydd rhaw fawr yn drwm i'w ddal ac mae un llafn yn cynnwys digon o halen i orchuddio 80m. Fodd bynnag, mae defnyddio rhaw i ledaenu halen yn aneffeithlon iawn ac yn wastraffus.

7.4 Un o'r dulliau mwyaf llwyddiannus o drin llwybrau troed / meysydd parcio yw defnyddio bwced o halen a'i ledaenu â llaw, gan wisgo maneg.

7.5 Cofiwch, nad yw halen yn gwaredu ar eira na rhew wedi'u cywasgu a bydd lledaenu halen mewn haenau trwchus yn wastraff, niweidiol i'r amgylchedd ac yn creu llanast os yw'n cydio yn eich esgidiau wrth ichi gerdded i mewn i eiddo.

7.6 Dylai safleoedd ystyried prynu lledaenwr/troellwr graean, yn hytrach na lledaenu â rhaw, i leihau'r gwaith trin â llaw dan sylw os oes angen clirio ardaloedd mawr. Mae defnyddio lledaenydd hefyd yn osgoi lledaenu halen yn anwastad a allai fod yn

berygl, ac mae'n ffordd o ddefnyddio llai o halen. Mae cyngor ar brynu biniau graean ar gael drwy gysylltu ag Andrew Pritchard yn y Gwasanaethau Cymdogaeth.

## 8. Iechyd a Diogelwch

8.1 Rhaid i Reolwyr Safleoedd gynnal asesiad risg ar gyfer gweithgareddau gwaith, gan gynnwys clirio eira, rhew a phibonwy yn unol â'r trefniadau asesu risg.

8.2 Dylai Rheolwyr Safleoedd hefyd gynnal asesiad o halen craig a dewisiadau eraill i gydymffurfio â rheoli sylweddau sy'n beryglus i iechyd. Mae mesurau eraill sy'n ofynnol i'w defnyddio - ar gael ar y ddolen isod. Cysylltwch â'r tîm iechyd a diogelwch am gymorth os oes angen.
http://www.rocksalt.co.uk/rock-salt-data-sheet.php

8.3 Rhaid adrodd yr holl ddamweiniau a phrofiadau agos, drwy ddilyn y trefniadau adrodd am ddamweiniau.

## 9. Cyflenwi a Storio Graean

9.1 Rhaid i bob safle ddarparu ar gyfer cyflenwi a storio graean yn seiliedig ar asesiad anghenion.

9.2 Dylai fod gan bob safle fin graean a ddylai fod wedi ei leoli mewn man penodol a all eto fod yn seiliedig ar yr asesiad yn rhif 2 uchod. Os yw'r safle yn destun fandaliaeth a chamddefnyddio, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r math o bin a ddefnyddir a'i leoliad.

9.3 Argymhellir bod biniau halen yn cael eu cloi (mae gan y biniau a gyflenwir gan Wasanaethau Cymdogaeth hasb a staplau) yn ystod yr haf er mwyn atal plant rhag cael mynediad ato.

9.4 Gellir cael cyngor ar brynu biniau graean trwy gysylltu â Dawn Pinney yn y Gwasanaethau Cymdogaeth. Yna gellir codi archeb trwy'r Gwasanaethau Gweithredol yn yr un modd â'r cyflenwadau halen / graean. Mae modd ailgodi'r gost am y gwasanaeth hwn.

9.5 Mae cyflenwadau halen a gedwir yn nepo priffyrdd y cyngor yn cael eu defnyddio ar gyfer priffyrdd yn unig, fodd bynnag gellir archebu cyflenwadau o halen mewn bagiau trwy system civica Gwasanaethau Cymdogaeth / Cynnal a Chadw'r Gaeaf, rhif cyflenwr 00820996. Caniatewch ychydig ddyddiau i'w dosbarthu.

9.6 Y pris cyflenwi a dosbarthu eleni yw £7.50 fesul bag 25kg.

9.7 Biniau Graean Newydd a Graean i'w Hail-lenwi 2017- 2018 :

- Mae bin 200litr, tua 800mm o hyd, 800mm o led, 800mm o uchder yn £95, mae'r gost o ddosbarthu, gosod a'i lenwi yn £62.00 Cyfanswm £157.00. Y gost o'i ail-lenwi yn y dyfodol yw £33.20
- Mae bin 400litr, tua 1.2m o hyd, 800mm o led, 800mm o uchder, yn £135, mae'r gost o ddosbarthu, gosod a'i lenwi yn £95.00, Cyfanswm £230.00. Y gost o'i ail-lenwi yn y dyfodol yw £33.20

## 10. Dewis arall i Halen/Graean

10.1 Ffefrir y prosesau y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn, fodd bynnag, efallai y bydd safleoedd yn dymuno cadw mathau eraill o halen / graean wrth gefn.

10.2 Rhaid i Reolwyr Safleoedd sy'n archebu cynnyrch arall, gyfeirio at y daflen ddata ar ddiogelwch deunydd ar gyfer y cynnyrch a chynnal asesiad COSHH cyn ei ddefnyddio yn eu heiddo.

## 11. Gofalu amdanoch chi'ch hun

11.1 Mae clirio eira yn waith corfforol caled felly gwnewch yn siŵr fod y cyfranogwyr yn ddigon heini a sicrhewch eu bod yn cymryd digon o egwyliau ac yn rhoi'r gorau iddi os byddant yn blino.

11.2 Rhaid gwisgo dillad ac esgidiau priodol. Mae pump ar hugain y cant o wres y corff yn diflannu trwy'r pen a'r dwylo, felly gwisgwch fenig a het. Byddwch yn chwysu wrth weithio, felly byddwch yn barod i dynnu haenau wrth i chi weithio.

## 12. Paratoi eich hun i Glirio Eira

12.1 Cyn mentro allan, gwnewch yn siŵr bod gennych ddillad cynnes ac esgidiau addas.

12.2 Os ydych yn gweithio ger y ffordd, fe'ch cynghorir i fod mor weladwy â phosib a gwisgo siaced/ gwasgod sy'n adlewyrchu.

12.3 Os ydych chi'n gweithio ar eich pen eich hun, gwnewch yn siŵr bod rhywun yn gwybod ble ydych chi a pha mor hir yr ydych yn bwriadu bod yno, cadwch ffôn symudol wrth law, cysylltwch bob 1-2 awr a rhowch wybod i'ch Rheolwr Llinell am unrhyw newidiadau i leoliad neu amcangyfrif o'ch amser dychwelyd.

12.4 Gwnewch yn siŵr eich bod yn agos at loches addas (adeilad neu gerbyd) er mwyn i chi allu cysgodi rhag ofn bydd y tywydd yn troi'n arw neu os ydych chi'n oeri. Gallwch hefyd ddefnyddio'r lloches i orffwys digon am fod y gwaith yn gorfforol iawn. Bydd y rhai nad ydynt yn gyfarwydd â gwaith corfforol yn blino'n gyflym felly byddwch yn rhesymol iawn o'r hyn y credwch y gallwch ei gyflawni. Fel amcan, dim ond 50m o droedffordd yr awr y byddai disgwyl i labrwr profiadol ei glirio.

## 13. Offer addas i'w defnyddio

13.1 Rhofiau eira plastig ysgafn yw'r offer mwyaf priodol.

13.2 I ledaenu'r halen fe allech ddefnyddio taenwr halen.

13.3 Sgŵp bach plastig i ledaenu'r halen os ydych yn gwneud hynny â llaw.

13.4 Berfa i symud offer, cario halen neu symud eira.

**Paul Bowkett**
**RHEOLWR IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL**
**Hydref 2017**